


# Cwis tywydd a hinsawdd y DU

**1** Eglurwch i'r grŵp y byddant yn archwilio tywydd a newid hinsawdd yn y DU yn y gweithgaredd hwn. Dechreuwch y wers trwy ddangos i'r grŵp y ffilm rhyfelwyr tywydd **yma**

**2** Dangoswch sleid 2 i'ch grŵp sy'n cynnwys y cwis a gofynnwch iddyn nhw rannu'n dimau llai – fe fyddan nhw'n mynd benben â'i gilydd i weld pwy fydd yr arbenigwyr cwis! Gofynnwch iddyn nhw drafod pob cwestiwn – yn dawel – yn eu grwpiau, cyn penderfynu ar ateb. Caniatewch ychydig funudau i gwblhau'r cwis, yna rhedwch drwy'r ymatebion gyda'ch gilydd

**3** Defnyddiwch yr atebion cwis ar y sleidiau i amlygu effeithiau tywydd garw ar wahanol gymunedau o amgylch y DU


**4** Eglurwch, gyda newid hinsawdd, ein bod yn disgwyl i ddigwyddiadau tywydd garw yn y DU ddod yn amlach / neu'n fwy difrifol. Cyflwynwch eirfa allweddol, gan gynnwys risgiau, lliniaru (lle rydym yn ceisio cael gwared â'r risg) ac addasu (lle rydym yn ceisio addasu i leihau effeithiau negyddol y risg). Gofynnwch i bawb feddwl am y termau hyn gan ddefnyddio enghraifft o fywyd bob dydd e.e. cymryd gofal â siswrn, peidio â rhedeg ar hyd coridorau, edrych pan fyddant yn croesi'r ffordd. Defnyddiwch gwestiynau cymell, gan gynnwys:

15 Munud

Gwaith grwp

Sleidiau cyflwyno cwis tywydd a hinsawdd y DU

- Sut maen nhw'n adnabod rhywbeth fel risg?
- Sut maen nhw'n rheoli'r risgiau hyn i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel?
- Pa newidiadau y gallent eu rhoi ar waith naill ai i liniaru neu addasu i'r risg?
- Ydyn nhw'n gallu meddwl am risgiau sy'n gysylltiedig â thywydd a hinsawdd?



Mae'r Swyddfa Dywydd yn darparu cynnwys addysg am ddim i gefnogi pobl ifainc i fod yn barod ar gyfer sut bydd y tywydd a newid yn yr hinsawdd yn effeithio arnyn nhw a'u cymunedau. Dysgwch ragor yma: **www.metoffice.gov.uk/schools**

© Hawlfraint y Goron 2022,
Y Swyddfa Dywydd